**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mehefin 2014**

**PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am newidiadau pellach sydd i'w gwneud i Restr Cydnabyddiaeth Ariannol yr Awdurdod yn dilyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2014/15.

## Cefndir

2 Ymestynnwyd cylch gwaith y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol trwy Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O dan y pwerau a ddarperir gan y Mesur bu i'r Panel lunio cyfres newydd o Reoliadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2012. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a'r tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

## Gwybodaeth

3 Yr unig newid i gostau teithio, cynhaliaeth a gofal yw fod y Panel wedi cael gwared ar y gyfradd benodol o £120 ar gyfer arosiadau dros nos yng Nghaerdydd ac mae nawr yn £95 yn unrhywle ar wahân i Lundain. Mae hyn yn golygu bod cyfraddau taladwy yn cydymffurfio â chyfraddau Llywodraeth Cymru.

4 Mae penderfyniadau eraill y Panel sydd i'w hystyried gan yr Awdurdod yn ymwneud â thaliadau i aelodau cyfetholedig. Dyma'r trefniadau cyfredol ar gyfer talu aelodau cyfetholedig:

"Mae taliadau i aelodau gyfetholedig wedi eu capio ar daliad sy'n gyfwerth â 4 diwrnod llawn y flwyddyn yr un. Diffinnir diwrnod fel unrhyw gyfarfod sy'n para'n hwy na 4 awr. Mae'r taliadau am amser cyfarfodydd yn unig, ac yn cynnwys amser a dreulir yn paratoi a theithio."

5 Y ffioedd sy'n daladwy yw £256 y dydd (£128 am hanner diwrnod) i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a £198 y dydd (£99 am hanner diwrnod) i aelodau cyfetholedig eraill y Pwyllgor Safonau.

6 Dyma benderfyniadau'r Panel fel a gyhoeddwyd yn yr adroddiad blynyddol diweddaraf:

i. Gallai Awdurdodau Lleol benderfynu ar nifer mwyaf y dyddiau y gallai aelodau cyfetholedig gael eu talu amdanynt mewn unrhyw un flwyddyn.

ii. Penderfyniad 33 - Mae'n rhaid i awdurdodau dalu ffioedd i aelodau cyfetholedig.

iii. Penderfyniad 34 - Penderfyniad (34) Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.

iv. Penderfyniad 35 - Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

v. Penderfyniad 36 - Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

vi. Penderfyniad 37 - Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

## Cyngor

7 Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno nodi nad yw aelodau cyfetholedig, hyd yn hyn, wedi hawlio unrhyw daliadau ac eithrio costau teithio, ac yn y blynyddoedd diwethaf, dim ond rhyw awr a hanner y mae cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau wedi para.

8 Gan fod y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu bod raid talu'r ffioedd i aelodau cyfetholedig, cynghorir yr Aelodau i ystyried

- a dderbynnir Penderfyniad 34, dylai'r Clerc a'r Swyddog Monitro fod a'r awdurdod i bendefynu faint o amser paratoi ar gyfer cyfarfodydd yr ystyrir ei bod yn dderbyniol ei hawlio
- a dderbynnir Penderfyniad 35
- o ran Penderfyniad 36, mae gan y Clerc a'r Swyddog Monitro awdurdod i benderfynu cyn cyfarfod a yw aelodau cyfetholedig yn gallu hawlio ffi diwrnod llawn ynteu ffi hanner diwrnod
- nodi Penderfyniad 37 a'i fod yn cael ei gynnwys yn y Rhestr.

## Goblygiadau Ariannol

9 Ar hyn o bryd, mae aelodau annibynnol yn gallu hawlio hyd at uchafswm o bedwar diwrnod y flwyddyn, ac os bydd hyn yn parhau dyma'r goblygiadau ariannol:

| | |
|---|---|
| Cadeirydd @ £256 x 4 diwrnod | £1,024 y flwyddyn |
| 3 aelod @ £198 x 4 diwrnod | £2,376 y flwyddyn |

## Argymhellion

10 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi bod y gyfradd £120 i aros mewn gwesty yng Nghaerdydd wedi mynd, ac erbyn hyn mae'n £95 yn unrhywle y tu allan i Lundain;

(ii) nodi bod raid i'r ATA dalu ffi i aelodau cyfetholedig i fynychu cyfarfodydd;

(iii) cymeradwyo bod uchafswm nifer y dyddiau y gall aelodau cyfetholedig gael eu talu mewn un flwyddyn yn aros ar bedwar diwrnod llawn y flwyddyn;

(iv) ddirprwyo awdurdod i'r Clerc a'r Swyddog Monitro i benderfynu ar y materion a nodir ym mharagraff 8 uchod.